# YSGOL PEN BARRAS
# POLISI GOSOD TARGEDAU

**Cyflwyniad**

Yn Ysgol Pen Barras, rydym yn cydnabod pwysigrwydd gosod targedau fel arf i wella newid cadarnhaol.  Dylai'r targedau fod yn benodol, yn fesuradwy, yn briodol ag adnoddau priodol ac yn amserol (SMART).
Rydym yn defnyddio targedau ar gyfer gwella'r ysgol, datblygu staff, gwella perfformiad dosbarth a chefnogi datblygiad plant unigol.

**Rheoli a Gwella'r Ysgol**

Y Cynllun Datblygu Ysgol yw'r brif ddogfen sy'n arwain o ran gwella'r ysgol.  Mae'n cynnwys rhestr o dargedau mewn perthynas â meysydd fel:

- Perfformiad plant mewn profion statudol a safonol
- Prosesau Hunan-arfarnu
- Adeiladau a thir yr ysgol
- Adnoddau a chyfleusterau
- Mentrau rheoli'r ysgol
- Marchnata

**Datblygiad Plentyn**

- Llais y Plentyn- mae staff yn gwrando ar llais y plentyn wrth ddewis themâu ar gychwyn bob tymor. Mae holiaduron dysgwyr, rhieni a staff yn caniatáu athrawon osod targedau bwrpasol ac addas.
- Yn ystod nosweithiau rhieni trafodir a rhennir targedau'r plant gyda'r rhieni er mwyn codi safonau'r unigolyn.
- Mae'r adroddiad blynyddol yn cynnwys adran sy'n disgrifio meysydd ar gyfer gwella yn ystod y flwyddyn i ddod.
- Rhoddir adborth ar lafar i'r plant yn ystod gwersi a chant eu hannog i osod targedau iddynt eu hunain ar gyfer gwella.
- Mae gan blant sydd ag anghenion arbennig gynlluniau addysg unigol sy'n cynnwys cyfres o dargedau ar gyfer gwella.  Caiff y rhain eu hadolygu gyda rhieni ac mewn cyfarfodydd adolygu.

**Datblygiad Staff**

- Mae staff yn cael Adolygiad Datblygiad Proffesiynol bob blwyddyn lle caiff cryfderau a gwendidau eu trafod, swydd ddisgrifiadau eu haddasu, a meysydd ar gyfer datblygu a hyfforddiant cysylltiedig eu canfod. Yn y cyfarfodydd Rheoli Perfformiad, caiff targedau eu gosod ar gyfer eu datblygu yn ystod y flwyddyn ganlynol.

**Targedau Perfformiad**

- Cynhelir profion safonol mewn Saesneg a Mathemateg (NFER) ym mis Mai bob blwyddyn. Cynhelir profion sillafu (Parallel) a Darllen (NFER) ddwywaith y flwyddyn. Caiff y wybodaeth a gynyrchir ei dadansoddi a gosodir targedau ar gyfer unigolion a grwpiau dosbarth cyfan.
- Fel rhan o weithdrefn monitro'r Sir gosodir targedau ar gyfer perfformiad ar ddiwedd asesiadau cyfnod allweddol. Caiff y rhain eu gwneud gan ddefnyddio'r wybodaeth am berfformiad presennol a pherfformiad tebygol posibl bob plentyn. Wedyn caiff strategaethau eu rhoi ar waith er mwyn galluogi i'r targedau hyn gael eu cyrraedd. Caiff gwybodaeth hefyd ei dadansoddi mewn perthynas â gwahaniaeth mewn perfformiad o ran rhyw.

**4. Monitro a Gwerthuso**

• Caiff cynnydd tuag at dargedau ei fonitro'n dymhorol gan arweinwyr canol ac uwch.
• Caiff data ei ddadansoddi i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella.
• Caiff canfyddiadau eu rhannu gyda staff, llywodraethwyr a rhieni lle bo'n briodol.
• Caiff y polisi ei adolygu'n flynyddol i sicrhau ei fod yn effeithiol ac yn adlewyrchu gofynion cenedlaethol cyfredol.

**5. Cyfrifoldebau**

• Pennaeth: Arwain y broses gosod targedau a sicrhau bod systemau monitro'n gadarn.
• Athrawon: Gosod a gweithredu targedau dosbarth ac unigol, a chofnodi cynnydd.
• Llywodraethwyr: Derbyn adroddiadau rheolaidd ar gynnydd a sicrhau atebolrwydd.
• Disgyblion: Deall a gweithio tuag at eu targedau personol.

**6. Cydraddoldeb a Chynhwysiant**

Mae'r ysgol yn sicrhau bod targedau'n adlewyrchu anghenion pob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, ac nad oes unrhyw grŵp yn cael ei anfantais.

Arwyddwyd: *Mr Huw Hilditch-Roberts* (Cadeirydd y Llywodraethwyr)

Arwyddwyd: *Mr Dyfan Phillips* (Pennaeth)